



(Cyhoeddwyd | Issued : 13/09/2022)

DEDDF DRWYDDEDU 2003 | LICENSING ACT 2003
TRWYDDED ANHEDDAU | PREMISES LICENCE

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

Rhif trwydded | Premises licence number: **PRM 0486 (Cyhoeddwyd | Issued : 13/09/2022)**

Rhan 1 – Manylion am y safle | Part 1 - Premises details

Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad:
Postal address of premises, or if none, ordnance survey map reference or description:

LING DE LONG
13 HEOL Y BONT / 13 BRIDGE STREET

Tref bost | Post town
LLANBEDR PONT STEFFAN / LAMPETER

Côd Post | Post cod
SA48 7HG

Rhif ffôn | Telephone number

Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau | Where the licence is time limited the dates
NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED
PREMISES LICENCE IS NOT TIME LIMITED

Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded:
Licensable activities authorised by the licence:

ADLONIAENT | REGULATED ENTERTAINMENT
CERDDORIAETH FYW | LIVE MUSIC
CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO | RECORDED MUSIC

LLUNIAETH HWYR Y NOS | LATE NIGHT REFRESHMENT

ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL

Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy
The times the licence authorises the carrying out of licensable activities

ADLONIAENT | REGULATED ENTERTAINMENT
CERDDORIAETH FYW | LIVE MUSIC
CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO | RECORDED MUSIC
LLUN-SUL / MON-SUN: 09:00-00:45

LLUNIAETH HWYR Y NOS | LATE NIGHT REFRESHMENT
LLUN-SUL / MON-SUN: 23:00-00:45

ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL
LLUN-SUL / MON-SUN: 09:00-24:00

AMSERAU ANSAFONOL / NON-STANDARD TIMINGS
RHAGYFR / DECEMBER 22rd: 09:00-02:00
RHAGFYR / DECEMBER 23rd: 09:00-02:00
RHAGFYR / DECEMBER 31st: 09:00-02:00
NOSWYL BLWYDDYN NEWYDD TSIENEIADD – dyddiad amrywiol / CHINESE NEWS YEARS
EVE – variable date: 09:00-02:00

Oriau agor y safle | The opening hours of the premises

LLUN-SUL / MON-SUN: 09:00-00:45

AMSERAU ANSAFONOL | NON-STANDARD TIMINGS: FEL YR ADRAN FLAENOROL / AS PER
PREVIOUS SECTION

Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle
neu oddi yno

Where the licence authorises supplies of alcohol whether these are on and/ or off supplies

AR AC ODDI AR Y SAFLE | ON AND OFF SALES

Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle
| Name, (registered) address, telephone number and email (where relevant) of holder of
premises licence

MR YOUFENG WANG
SIMPLE CHINESE LTD
13 HEOL Y BONT / BRIDGE STREET
LLANBEDR PONT STEFFAN / LAMPETER
CEREDIGION
SA48 7HG

**Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol)
Registered number of holder, for example company number, charity number (where applicable)**

Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol | Name, address and telephone number of designated premises supervisor where the premises licence authorises the supply of alcohol

MR YOUFENG WANG

**Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol
Personal licence number and issuing authority of personal licence held by designated premises supervisor where the premises licence authorises for the supply of alcohol**

CER 1537

CYNGOR SIR CEREDIGION / COUNTY COUNCIL

ATODIAD 1 - AMODAU GORFODOL

1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
- (2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
 - (a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu
 - (b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
- (3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.
- (2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
- (3)
 - (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu
 - (b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
- (4) Yn yr adran hon -
Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae "corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

3 Amod gorfodol: goruchwyllo drysau

- (1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- (2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -
 - (a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
 - (b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
 - (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu
 - (ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).
- (3) At ddibenion yr adran hon -
 - (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a
 - (b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014

Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.
2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-
 - (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);
 - (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –
$$P = D + (D \times V)$$
pan mai –
 - (i) P yw'r pris a ganiateir
 - (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a
 - (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol
 - (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw
 - (i) Deiliad y drwydded safle,
 - (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu
 - (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;
 - (d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac
 - (e) ystyr "treth ar werth" yw treth ar werth sy'n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)
3. Os nad yw'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i fyny i'r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu'r dreth ar werth.

(2) Mae'r pris a ganiateir sy'n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy'n digwydd cyn i'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

Annex 1 - MANDATORY CONDITIONS

1 Mandatory conditions where licence authorises supply of alcohol

- (1) Where a premises licence authorises the supply of alcohol, the licence must include the following conditions.
- (2) The first condition is that no supply of alcohol may be made under the premises licence-
 - (a) at a time when there is no designated premises supervisor in respect of the premises licence, or
 - (b) at a time when the designated premises supervisor does not hold a personal licence or his personal licence is suspended.
- (3) The second condition is that every supply of alcohol under the premises licence must be made or authorised by a person who holds a personal licence.

2 Mandatory condition: exhibition of films

- (1) Where a premises licence authorises the exhibition of films, the licence must include a condition requiring the admission of children to the exhibition of any film to be restricted in accordance with this section.
- (2) Where the film classification body is specified in the licence, unless subsection (3)(b) applies, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that body.
- (3) Where-
 - (a) the film classification body is not specified in the licence, or
 - (b) the relevant licensing authority has notified the holder of the licence that this subsection applies to the film in question, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that licensing authority.
- (4) In this section - "children" means persons aged under 18; and "film classification body" means the person or persons designated as the authority under section 4 of the Video Recordings Act 1984 (c.39) (authority to determine suitability of video works for classification).

3 Mandatory condition: door supervision

- (1) Where a premises licence includes a condition that at specified times one or more individuals must be at the premises to carry out a security activity, the licence must include a condition that each such individual must be licensed by the Security Industry Authority.
- (2) But nothing in subsection (1) requires such a condition to be imposed-
 - (a) in respect of premises within paragraph 8(3)(a) of Schedule 2 to the Private Security Industry Act 2001 (c.12) (premises with premises licenses authorising plays or films), or
 - (b) in respect of premises in relation to-
 - (i) any occasion mentioned in paragraph 8(3)(b) or (c) of that Schedule (premises being used exclusively by club with club premises certificate, under a temporary event notice authorising plays or films or under a gaming licence), or
 - (ii) any occasion within paragraph 8(3)(d) of that Schedule (occasions prescribed by regulations under that Act).
- (3) For the purposes of this section-

- (a) "security activity" means an activity to which paragraph 2(1)(a) of that Schedule applies, and
- (b) paragraph 8(5) of that Schedule (interpretation of references to an occasion) applies as it applies in relation to paragraph 8 of that Schedule.

The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2014

With effect from 28th May 2014

1. A relevant person shall ensure that no alcohol is sold or supplied for consumption on or off the premises for a price which is less than the permitted price.
2. For the purposes of the condition set out in paragraph 1-
 - (a) "duty" is to be construed in accordance with the Alcoholic Liquor Duties Act 1979;
 - (b) "permitted price" is the price found by applying the formula –
$$P = D + (D \times V)$$
where –
 - (i) P is the permitted price
 - (ii) D is the rate of duty chargeable in relation to the alcohol as if the duty were charged on the date of the sale or supply of the alcohol, and
 - (iii) V is the rate of value added tax chargeable in relation to the alcohol as if the value added tax were charged on the date of the sale or supply of the alcohol
 - (c) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a premises licence –
 - (i) The holder of the premises licence,
 - (ii) The designated premises supervisor (if any) in respect of such a licence, or
 - (iii) The personal licence holder who makes or authorises a supply of alcohol under such a licence;
 - (d) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a club premises certificate, any member or officer of the club present on the premises in a capacity which enables the member or officer to prevent the supply in question; and
 - (e) "valued added tax" means value added tax charged in accordance with the Value Added Tax Act 1994
3. Where the permitted price given by Paragraph (b) of paragraph 2 would (apart from this paragraph) not be a whole number of pennies, the price given by that sub-paragraph shall be taken to be the price actually given by that sub-paragraph rounded up to the nearest penny.

4. (1) Sub-paragraph (2) applies where the permitted price by Paragraph (b) of paragraph 2 on a day (“the first day”) would be different from the permitted price on the next day (“the second day”) as a result of a change to the rate of duty or value added tax.

(2) The permitted price which would apply on the first day applies to sales or supplies of alcohol which take place before the expiry of the period of 14 days beginning on the second day.

The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) (Amendment) Order 2014

The below Mandatory Conditions **replace** the Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2010 and comes into effect **on 1st October 2014**

Conditions 1 to 4 refer to all premises that sell or supply alcohol for consumption on the premises. Condition 3 is relevant to Premises that sell for consumption off the premises.

1. (1) The responsible person must ensure that staff on relevant premises do not carry out, arrange or participate in any irresponsible promotions in relation to the premises.

(2) In this paragraph, an irresponsible promotion means any one or more of the following activities, or substantially similar activities, carried on for the purpose of encouraging the sale or supply of alcohol for consumption on the premises—

(a) games or other activities which require or encourage, or are designed to require or encourage, individuals to—

(i) drink a quantity of alcohol within a time limit (other than to drink alcohol sold or supplied on the premises before the cessation of the period in which the responsible person is authorised to sell or supply alcohol), or

(ii) drink as much alcohol as possible (whether within a time limit or otherwise);

(b) provision of unlimited or unspecified quantities of alcohol free or for a fixed or discounted fee to the public or to a group defined by a particular characteristic in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(c) provision of free or discounted alcohol or any other thing as a prize to encourage or reward the purchase and consumption of alcohol over a period of 24 hours or less in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(d) selling or supplying alcohol in association with promotional posters or flyers on, or in the vicinity of, the premises which can reasonably be considered to condone, encourage or glamorise anti-social behaviour or to refer to the effects of drunkenness in any favourable manner;

(e) dispensing alcohol directly by one person into the mouth of another (other than where that other person is unable to drink without assistance by reason of disability).

2. The responsible person must ensure that free potable water is provided on request to customers where it is reasonably available.

3. (1) The premises licence holder or club premises certificate holder must ensure that an age verification policy is adopted in respect of the premises in relation to the sale or supply of alcohol.

(2) The designated premises supervisor in relation to the premises licence must ensure that the supply of alcohol at the premises is carried on in accordance with the age verification policy.

(3) The policy must require individuals who appear to the responsible person to be under 18 years of age (or such older age as may be specified in the policy) to produce on request, before being served alcohol, identification bearing their photograph, date of birth and either—

- (a) a holographic mark, or
- (b) an ultraviolet feature.

4. The responsible person must ensure that—

(a) where any of the following alcoholic drinks is sold or supplied for consumption on the premises (other than alcoholic drinks sold or supplied having been made up in advance ready for sale or supply in a securely closed container) it is available to customers in the following measures—

- (i) beer or cider: ½ pint;
- (ii) gin, rum, vodka or whisky: 25 ml or 35 ml; and
- (iii) still wine in a glass: 125 ml;

(b) these measures are displayed in a menu, price list or other printed material which is available to customers on the premises; and

(c) where a customer does not in relation to a sale of alcohol specify the quantity of alcohol to be sold, the customer is made aware that these measures are available.”

Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu

a) Cyffredinol

Bydd cwsmeriaid yn cael eu fetio i sicrhau nad ydynt wedi meddwi wrth fynd i mewn i'r safle (nodwedd a geir weithiau gyda bwyta Tsieineaidd ond i'w gwrthwynebu o ddifrif ar y safle hwn) ac i beidio â goryfed alcohol wrth fwyta bwyd ar y safle. Bydd pob mynedfa a ffenestr yn cael eu diogelu i'r safonau sy'n rhesymol ofynnol ac ar gyngor Heddlu Dyfed Powys ac ymgyngoreion eraill.

Bydd y safle'n cael ei ddylunio fel ei fod yn cymryd i ystyriaeth yr holl argymhellion a dyfarniadau cyfredol mewn perthynas â diogelwch y cyhoedd a gwahoddir pob ymgynghorai statudol i gynnig cyngor a chyfarwyddyd ynghylch materion sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.

Mae'r sylwadau a gynhwysir yn 1 uchod yn cael eu hailadrodd ond yn ogystal bydd yr Ymgeiswyr yn cysylltu â Swyddog Trwyddedu Heddlu Dyfed Powys ar ôl y cyfnod masnachu cychwynnol i weld a oes unrhyw anawsterau wedi'u profi neu wedi'u hadrodd mewn perthynas â niwsans cyhoeddus sy'n deillio'n benodol o'r safle.

Bydd yr ymgeiswyr a'u holl staff yn cael eu briffio'n iawn mewn perthynas â'r gofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i blant mewn mannau cyhoeddus ac yn benodol mewn perthynas â chyflenwi alcohol.

b) Atal trosedd ac anrhefn

Nid yw nifer lleoedd y bwyty (fel sy'n amlwg o'r cynllun) yn ormodol gan alluogi rheolwyr a staff y safle i sicrhau rheolaeth briodol.

Bydd yr Ymgeiswyr wedi drafftio datganiad polisi iechyd a diogelwch erbyn amser agor y safle a bydd ar gael i'w archwilio ar y safle. Bydd y polisi'n cael ei ddatblygu a'i adolygu o leiaf bob blwyddyn a bydd yn sicrhau bod yr holl staff yn cadw at bolisi o'r fath.

Bydd yr holl staff yn cael eu briffio i sicrhau nad oes alcohol yn cael ei weini i neb dan oed. Os yw aelod o staff yn credu bod rhywun o dan 21 oed bydd yn ofynnol iddo ofyn am dystiolaeth o oedran y person hwnnw ar ffurf trwydded yrru neu basbort. Os bydd unrhyw anhawster yn codi bydd y person hwnnw'n cael ei atgyfeirio at Oruchwyliwr Dynodedig y Fangre neu ei gynrychiolydd enwebedig awdurdodedig. Bydd yr holl staff sy'n gweini alcohol wedi'u hyfforddi'n llawn a bydd eu hyfforddiant yn cael ei ddiweddarau wedi hynny.

Ni fydd dim trefniadau a fydd yn annog yfed anghyfrifol ac ni fydd cwsmeriaid sy'n ymddangos yn methu ag ymddwyn mewn modd priodol o ganlyniad i alcohol yn cael eu goddef a gofynnir iddynt adael y safle. Os bydd unrhyw anhawster yn codi bydd y person hwnnw'n cael ei atgyfeirio at Oruchwyliwr Dynodedig y Fangre neu ei gynrychiolydd enwebedig awdurdodedig. Os bydd angen cysylltir â'r Heddlu ar unwaith. Ni chaniateir mynediad newydd i'r safle ar ôl 23:00 o'r gloch.

Bydd unrhyw alcohol sy'n cael ei storio ar y safle yn cael ei gadw mewn storfa ddiogel a rhaid cytuno ar ei natur a'i lleoliad gyda Swyddog Trwyddedu Heddlu Dyfed Powys. Bydd rheolaethau digonol yn cael eu gweithredu fel y gellir cynnal archwiliad priodol o'r stoc alcohol i sicrhau nad oes dim diferiad naill ai o ran stoc nac arian parod.

Bydd yr holl staff yn cael eu briffio i sicrhau nad oes dim sylweddau anghyfreithlon yn cael eu cymryd, eu delio na'u masnachu ar y safle ar unrhyw adeg. Hefyd, pan fo'n briodol, bydd cyfleusterau'r toiledau yn cael eu harolygu'n aml.

c) Diogelwch y Cyhoedd

Mae ffigurau'r capasiti y caiff eu casglu o leoedd y bwyty a ddangosir ar y cynllun wedi'u cyfrifo i sicrhau diogelwch a mwynhad yr holl gwsmeriaid.

Mae'r sylwadau a gynhwysir yn Atodiad B a gweithrediad llym polisiau'r Ymgeisydd o ran yfed yn anghyfrifol a chymryd, delio neu fasnachu sylweddau anghyfreithlon hefyd er diogelwch cyffredinol y cyhoedd.

Bydd diffoddyddion tân wedi'u lleoli ar y safle yn unol ag argymhellion y Swyddog Tân. Bydd holl argymhellion y Swyddog Tân o ran atal a chanfod tân hefyd yn cael eu gweithredu.

Bydd yr holl staff yn cael eu briffio mewn perthynas â'r camau i'w cymryd os bydd cwsmer yn mynd yn sâl wrth fynychu'r safle a bydd cyfleusterau cymorth cyntaf sylfaenol yn cael eu storio ar y safle fel sy'n rhesymol ofynnol ar gyfer bwyty o'r maint a'r natur a ddisgrifir yma ac a ddangosir ar y cynllun ac ar ôl ymgynghori ag awdurdodau meddygol priodol.

Pan fydd y safle o'r diwedd wedi'i adnewyddu, bydd yn cydymffurfio â gofynion Deddf Adeiladu 1984 ac felly'n elwa o Gymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu'r Awdurdod Lleol sydd yn ei thro yn ymdrin â materion yn amrywio o'r gwaith cyffredinol a wneir ar y safle i ardystiad trydanol. Mae'r safle o gwmpas Stryd y Bont sydd wedi'i oleuo'n dda ac sydd â throedffordd ddigonol. Mae croesfan sebra gerllaw.

Bydd Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus cynhwysfawr yn ei le trwy'r amser.

d) Atal Niwsans Cyhoeddus

Mae'r safle wedi'i leoli mewn ardal lle mae bwytaï a sefydliadau bwyta eraill. Mae sylwadau a wnaed yn gynharach mewn perthynas ag atal trosedd ac anhrefn a diogelwch y cyhoedd yn cael eu hailadrodd i'r graddau y bydd y datganiadau a wneir yn atal digwyddiadau o niwsans cyhoeddus.

Mae adnewyddu'r safle yn ystyried gofynion ynysu rhag sain a dylai polisi'r rheolwyr mewn perthynas ag alcohol sicrhau nad yw lefelau sŵn yn uwch na'r hyn a ddisgwylir fel arfer gan fwyty.

Bydd cerddoriaeth (yn fyw neu wedi'i recordio) yn cael ei darlledu ar y fath lefel sain fel na fydd yn afresymol o uchel nac yn achosi dim niwsans i drigolion yng nghyffiniau'r safle.

Os daw'n angenrheidiol i daflu unigolyn neu unigolion allan o'r safle a bod yr unigolyn neu unigolion yn parhau i ymddwyn mewn modd meddw neu annerbyniol yna bydd yr heddlu'n cael ei alw ar unwaith.

(Cyhoeddwyd | Issued : 13/09/2022)

Ar ddiwedd y cyfnodau ar gyfer y gweithgareddau trwyddedadwy a ddisgrifir yma, gofynnir i bob cwsmer adael y safle mor gyflym ac mor dawel â phosibl. Bydd yr holl sbwriel yn cael ei gasglu o gefn y safle ac felly'n achosi cyn lleied o aflonyddwch i bobl yng nghyffiniau'r safle.

Yn ystod yr achlysuron ym mhob blwyddyn galendr pan fo amseriadau ansafonol yn berthnasol, bydd Goruchwyliwr Dynodedig y Fangre neu ei gynrychiolydd enwebedig awdurdodedig yn monitro lefelau sŵn ac ymddygiad cyffredinol ac yn cadw cofnod o'i sylwadau.

e) Amddiffyn Plant Rhag Niwed

Er nad yw'r Ymgeiswyr yn rhagweld y bydd nifer fawr o blant ifanc yn defnyddio'r safle (nid yw plant yn mynychu bwyta Tsieineaidd yn fawr) mae'r Ymgeiswyr yn ymwybodol o'r angen i sicrhau lles plant. Bydd yr holl staff yn cael eu cyfarwyddo i gadw llygad am les plant ac i roi gwybod am unrhyw fater amheus o gwbl i Oruchwyliwr Dynodedig y Fangre neu ei gynrychiolydd enwebedig awdurdodedig neu fel arall i gynrychiolydd yr Ymgeiswyr. Bydd polisi amddiffyn plant yn cael ei baratoi a bydd yn barod erbyn i'r safle fod yn barod ar gyfer busnes. Bydd yr holl staff yn cael gwybod am bolisi amddiffyn plant o'r fath.

Bydd gweithredu, yn llym, bolisi'r Ymgeisydd ar werthu alcohol a chymryd, delio a masnachu sylweddau anghyfreithlon hefyd yn amddiffyn plant dan oed.

Bydd yr Ymgeiswyr yn sicrhau bod yr holl blant sy'n mynychu'r safle yng nghwmni oedolion cyfrifol.

Bydd seddau priodol ar gael i blant ifanc sy'n mynychu'r bwyty.

Annex 2 - Conditions consistent with the operating Schedule

a) General

Customers will be vetted to ensure that they are not inebriated when entering the premises (a trait sometimes found with Chinese restaurants but to be seriously opposed at these premises) and not to over indulge with alcohol when partaking of food at the premises. All entrances and windows will be secured to such standards as are reasonably required and on the advice of the Dyfed Powys Police and other consultees.

The premises will be designed so as to take into account all current recommendations and rulings in relation to public safety and all statutory consultees will be invited to offer advice and guidance on issues of public safety.

The observations contained in 1 above are repeated but in addition the Applicants will contact the Dyfed Powys Police Licensing Officer after the initial period of trading in order to gauge whether any difficulties have been experienced or reported in relation to public nuisance emanating specifically from the premises.

The applicants and all their staff will be properly briefed in relation to the legislative requirements applicable to children in public places and in particular relating to the supply of alcohol.

b) The prevention of crime and disorder

The number of restaurant covers (as evident from the plan) is not excessive thus enabling the management and staff of the premises to ensure proper control.

The Applicants will have drafted a health and safety policy statement by the time of the opening of the premises and will be available for inspection at the premises. The policy will be developed and reviewed at least annually and it will ensure that all staff adhere to such policy.

All staff will be briefed to ensure that no alcohol is served to any person under age. If a member of staff believes a person to be under the age of 21 years they will be required to ask for evidence of that person's age in the form of either a driving licence or a passport. Should any difficulty arise that person will be referred to the Designated Premises Supervisor or his authorised nominated representative. All staff service alcohol will be fully trained and their training kept up to date thereafter.

There will be no arrangements which will encourage irresponsible drinking and customers appearing to be unable to conduct themselves in an appropriate manner as a result of alcohol will not be tolerated and will be asked to leave the premises. Should any difficulty arise that person will be referred to the Designated Premises Supervisor or his authorised nominated representative. If necessary the Police will be contacted immediately. No new admittance will be allowed entry onto the premises after 23:00 hours.

Any alcohol stored at the premises will be kept in a secure store the nature and location of which are to be agreed with the Dyfed Powys Police Licensing Officer. Adequate controls will

be implemented so as to enable to proper audit of the stock of alcohol to be taken to ensure that there is no seepage either by way of stock or cash.

All staff will be briefed to ensure that no illegal substances are taken, dealt or transacted at the premises at any time. Also when appropriate frequent inspections will be made of the toilet facilities.

c) Public Safety

The capacity figures which may be gleaned from the restaurant covers shown on the plan are calculated to ensure the safety and enjoyment of all customers.

The comments contained in Annex B and the strict implementation of the Applicant's policies in respect of irresponsible drinking and taking, dealing or transacting of illegal substances are also for the general safety of the public.

Fire extinguishers will be located at the premises in accordance with the Fire Officer's recommendations. All fire prevention and detection recommendations of the Fire Officer will also be implemented.

All staff will be briefed in relation to the action to be taken should a customer be taken ill whilst attending the premises and there will be stored at the premises such basic first aid facilities as are reasonably required for a restaurant of the size and nature described herein and shown on the plan and after consultation with appropriate medical authorities.

When the premises have finally been refurbished they will comply with the requirements of the Building Act 1984 and will therefore benefit from Local Authority Building Regulation Approval which in turn covers matters ranging from the general work undertaken at the premises to electrical certification. The premises about Bridge Street which is well-lit and which has an adequate footway. There is a zebra crossing nearby.

Comprehensive Public Liability Insurance will be in place at all times.

d) The Prevention of Public Nuisance

The premises are located in an area where there are other restaurants and eating establishments. Observations made earlier in relation to the prevention of crime and disorder and public safety are repeated to the extent that the statements made will prevent incidents of public nuisance.

The refurbishment of the premises takes in account soundproofing requirements and the management's policy in relation to alcohol should ensure that noise levels do not exceed those normally expected from a restaurant.

Music (live or recorded) will be broadcast at such a volume level so as not to be unreasonably loud or so as to cause any nuisance to residents in the vicinity of the premises.

(Cyhoeddwyd | Issued : 13/09/2022)

If it becomes necessary to eject a person or persons from the premises and the person or persons continue to behave in a drunken or unacceptable manner then the police will be called immediately.

At the end of the periods for the licensable activities described herein all customers will be asked to leave the premises as quickly and quietly as possible. All refuse will be collected from the rear of the premises thus causing minimum annoyance or disturbance to persons in the vicinity of the premises.

During the occasions in each calendar year when non-standard timings apply the Designated Premises Supervisor or his authorised nominated representative will monitor noise levels and general behaviour and will keep a record of his observations.

e) The Protection of Children From Harm

While the Applicants do not foresee a large number of young children using the premises (children do not heavily attend Chinese restaurants) the Applicants are aware of the need to ensure the welfare of children. All staff will be instructed to look out for the welfare of children and to report any suspicious matter whatsoever to the Designated Premises Supervisor or his authorised nominated representative or otherwise a representative of the Applicants. A child protection policy will be prepared and be ready by the time the premises are ready for business. All staff will be made aware of such child protection policy.

Strict implementation of the Applicant's policy on the sale of alcohol and the taking, dealing and transacting of illegal substances will also protect underage children.

The Applicants will ensure that all children attending the premises are accompanied by responsible adults.



Appropriate seating will be available for young children attending the restaurant.

(Cyhoeddwyd | Issued : 13/09/2022)

Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu

Annex 3 - Conditions attached after a hearing by the licensing authority/ Mediation meeting

Atodiad 4 – Cynlluniau | Annex 4 – Plans



PROPOSED PROJECT OF THE
11 BRIDGE STREET, KILKILLEN
FOR AN ALIEN TRADER
PLAN NO. 2022/00123

Scale: 1:500

Author: [Name]

Date: 13/09/2022